# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

Cofnodion cyfarfod Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd ddydd Llun 18 Mehefin 2018 yn Siambr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy, Bodlondeb, Conwy. Dechreuodd y cyfarfod am 11.15 y bore.

**YN BRESENNOL**

| **Y Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| M Ll Davies (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| P Lewis (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| B Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| B Blakeley | Cyngor Sir Ddinbych |
| M Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| A Daniels | Cyngor Gwynedd |
| A Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| P Evans | Cyngor Sir Ddinbych |
| V Gay | Cyngor Sir y Fflint |
| S Glyn | Cyngor Gwynedd |
| R Griffiths | Cyngor Sir Ynys Môn |
| E Jones | Cyngor Sir Ynys Môn |
| S Lloyd-Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| R Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Rees | Cyngor Sir Ynys Môn |
| P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| N Smith | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| A Tansley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |
| G Williams | Cyngor Gwynedd |
| D Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |

**Hefyd yn bresennol:**

S A Smith (Prif Swyddog Tân a Phrif Weithredwr); C P Everett (Clerc a Swyddog Monitro i'r Awdurdod); K W Finch (Trysorydd i'r Awdurdod); R Fairhead (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol); S Morris a H MacArthur (Prif Swyddogion Cynorthwyol); T Williams (Rheolwr Cyfathrebu Corfforaethol); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorydd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

**YMDDIHEURIADAU**

| **Cynghorydd** | **Yn cynrychioli** |
|---|---|
| M Dixon | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| J B Hughes | Cyngor Gwynedd |
| I D Lloyd | Cyngor Gwynedd |
| R Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 19 MAWRTH 2018

2.1 Cafodd cofnodion cyfarfod yr Awdurdod Tân ac Achub a gynhaliwyd ar 19 Mawrth eu cyflwyno i'w cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r cofnodion yn gofnod gwir a chywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 Tîm Cymorth Cymunedol – Fel y cytunwyd yn y cyfarfod diwethaf, roedd y PST wedi ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet i fynegi siom yr aelodau nad oedd dim cyllid ar gael i barhau â'r Tîm Cymorth Cymunedol. Roedd y tîm wedi cael ei chwalu erbyn hyn, ac mae gwaith gwerthfawr y tîm wedi dod i ben.

3.2 Roedd yr aelodau'n hynod siomedig a phryderus nad oedd cyllid wedi dod gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y gwasanaeth rhagorol hwn. Cadarnhaodd y PST fod tystiolaeth ac ystadegau yn brawf o'i lwyddiant ond roedd y tîm wedi cael ei sefydlu gan ddefnyddio cyllid allanol ac roedd cytundeb wedi bod ers tro y byddai'r Awdurdod yn rhoi'r gorau i'r gweithgaredd petai'r cyllid allanol yn dod i ben.

3.3 Roedd yr aelodau'n dymuno cofnodi eu diolch i'r staff a fu'n aelodau o'r Tîm Cymorth Cymunedol ac i'r swyddogion a oedd wedi ceisio cael cyllid i barhau â'r gwaith.

3.4 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth ddiweddaraf.**

4 MATERION BRYS

4.1 Nid oedd unrhyw faterion brys.

5 ADRODDIAD Y CADEIRYDD

5.1 Roedd yr adroddiad yn rhestru'r cyfarfodydd a'r digwyddiadau yr aeth y Cyng. M Ll Davies a'r Cyng. P R Lewis iddynt rhwng Mawrth a Mehefin 2018 yn rhinwedd eu swyddi fel Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru.

5.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

6 CYNLLUN GWELLA A LLESIANT 2019/20

6.1 Cyflwynodd y Cyng. P R Lewis yr adroddiad ar ran aelodau'r Panel Gweithredol. Roedd yr adroddiad yn nodi argymhelliad y Panel Gweithredol ar gyfer y cam nesaf o ddatblygu Cynllun Gwella a Llesiant yr Awdurdod Tân ac Achub (ATA) 2019/20, ac roedd yn gofyn i'r aelodau gytuno ar seiliau ymgynghoriad yr ATA â'r cyhoedd a rhanddeiliaid yn ystod haf 2018.

6.2 Rhoddodd y Cyng. Lewis wybod i'r aelodau am y gwaith a wnaed yn y cefndir gan aelodau'r Gweithgor Cynllunio. Yn y pum cyfarfod a gynhaliwyd, roedd yr wybodaeth helaeth a ddarparwyd gan y swyddogion wedi galluogi'r aelodau i ganfod opsiynau posibl i ymgynghori â'r cyhoedd yn eu cylch o ran sut i ariannu'r diffyg o £1.9 miliwn sy'n wynebu'r Awdurdod yn 2019/20.

6.3 Cafodd yr aelodau eu hatgoffa gan PSC Morris am egwyddorion Gunning, sef, yn benodol, ymgynghori'n briodol a chydwybodol yn unol â'r egwyddorion er mwyn lleihau'r risg o her gyfreithiol naill ai i'r ymgynghoriad ei hun neu i unrhyw benderfyniad wedi hynny.

6.4 Bu'r aelodau'n trafod yr adroddiad am gryn amser, gan edrych ar y gwahanol opsiynau a gafodd eu hystyried a'u gwrthod gan y Panel Gweithredol. Er y byddai rhai o'r opsiynau wedi arwain at yr arbedion angenrheidiol, nodwyd bod yr aelodau yn bryderus am yr effaith ar lefel gyffredinol y gwasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru.

6.5 Cafodd opsiynau a) a b) eu hargymell ar gyfer yr ymgynghoriad. Tra oedd opsiwn a) yn golygu cynyddu cyfraniad yr awdurdodau lleol i ariannu holl swm y diffyg, roedd opsiwn b) yn dweud y gallai'r Awdurdod gynyddu'r cyfraniadau gan yr awdurdodau lleol fymryn llai na holl swm y diffyg a gwneud arbedion effeithlonrwydd mewnol i bontio'r bwlch. Ond, ni ellid gwneud yr arbedion hyn heb effeithio ar y gwasanaethau i'r cyhoedd.

6.6 Teimlai'r holl aelodau ei bod yn bwysig cynnwys cymaint o wybodaeth gefndirol â phosibl yn y ddogfen ymgynghori, a hynny er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn deall yn iawn pa mor ddifrifol yw'r sefyllfa a hefyd er mwyn iddynt ddeall y gallai cynnydd yng nghyfraniad yr awdurdodau lleol olygu cynnydd yn eu bil treth gyngor.

6.7 **PENDERFYNWYD bod ATAGC yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus dros haf 2018 ar strategaeth ariannol yn seiliedig ar y ddwy opsiwn a ganlyn:**

**a)** cael amcangyfrif o £1,893,000 o gynnydd yng nghyfanswm y cyfraniadau cyfunol gan yr awdurdodau lleol yn 2019/20, a hynny i gadw lefelau cyfredol y gwasanaethau tân ac achub; NEU

**b)** cael mymryn llai na £1,893,000 o gynnydd yng nghyfanswm y cyfraniadau cyfunol gan yr awdurdodau lleol, a hynny i gadw'r prif wasanaethau tân ac achub yng Ngogledd Cymru ond bod rhaid gwneud rhai arbedion.
**Manylion pleidleisio: 22 o blaid a 2 yn ymatal.**

7 TREFNIADAU LLYWODRAETHU A CHYLLID AR GYFER ATAau YNG NGHYMRU

7.1 Cyflwynodd y PST yr adroddiad a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y sefyllfa ddiweddaraf o ran y newidiadau arfaethedig i drefniadau cyllid a llywodraethu awdurdodau tân ac achub (ATAau) yng Nghymru.

7.2 Roedd yr adroddiad yn cyfeirio at gynnig gan Ysgrifennydd y Cabinet i gynrychiolwyr yr ATA gyfarfod â dau academydd annibynnol sy'n arbenigo ar lywodraethu; cynhaliwyd y cyfarfod ar gyfer Gogledd Cymru ar 4 Mehefin a bydd adroddiad yn cynnwys adborth gan y tri ATA yn cael ei gyflwyno i Ysgrifennydd y Cabinet maes o law. Bydd y Cadeiryddion yn cwrdd ag Ysgrifennydd y Cabinet ym mis Gorffennaf.

7.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

8 PERFFORMIAD ARIANNOL 2017/18

8.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad a oedd yn rhoi perfformiad ariannol drafft yr Awdurdod heb ei archwilio ar gyfer 2017/18 a'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2018. Gofynnwyd i'r Aelodau hefyd gymeradwyo bod y cronfeydd a glustnodwyd yn cael eu cario drosodd fel y nodir yn yr adroddiad.

8.2 Roedd yr adroddiad wedi cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio ar 4 Mehefin 2018 er mwyn i'r aelodau adolygu'r cynnwys cyn ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân ac Achub. Yn dilyn cyflwyniad yn tynnu sylw at feysydd allweddol yr awdurdod, roedd Aelodau'r Pwyllgor Archwilio wedi argymell bod yr Awdurdod Tân ac Achub yn cymeradwyo'r adroddiad.

8.3 Nodwyd bod y cronfeydd a glustnodwyd yn cael eu cario drosodd ar gyfer y prosiectau canlynol:

- Contract cenedlaethol newydd ar gyfer cysylltiadau radio – mae'r prosiect yn mynd yn ei flaen, ac ystyrir mai doeth fyddai neilltuo ariannol i dalu unrhyw gostau ychwanegol o ganlyniad i oedi yn yr amserlenni ar lefel genedlaethol. £300k

- Roedd Llywodraeth Cymru wedi gwneud 50% o ostyngiad yn y grant diogelwch cymunedol, felly ystyrid mai doeth fyddai cario'r gronfa hon drosodd i ariannu gwariant yn y dyfodol. £194k

8.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi sefyllfa a pherfformiad ariannol yr Awdurdod; a**

**(ii) cymeradwyo bod y cronfeydd wrth gefn yn cael eu cario drosodd fel y nodir uchod.**

9 GWEITHGAREDDAU RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION DARBODUS GWIRIONEDDOL 2017/18

9.1 Cyflwynodd y Trysorydd adroddiad blynyddol y trysorlys, sef un o ofynion gweithdrefnau adrodd yr Awdurdod; mae'r adroddiad yn rhestru gweithgareddau'r trysorlys a dangosyddion darbodus gwirioneddol 2017/18 yn unol â gofynion y Cod Darbodus.

9.2 Nodwyd bod aelodau'r Pwyllgor Archwilio, yn ei gyfarfod ar 4 Mehefin 2018, wedi adolygu'r cynnwys yn fanwl, nid oedd ganddynt unrhyw sylwadau o bwys, nid oeddent yn gallu canfod unrhyw risgiau mawr yn yr adroddiad, a byddent yn argymell bod yr Awdurdod yn ei gymeradwyo.

9.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r dangosyddion darbodus gwirioneddol sydd yn atodiad A i'r adroddiad.**

10 PWYNTIAU ALLWEDDOL PERFFORMIAD AMCANOL HEB EU HARCHWILIO

10.1 Rhoddodd y PSC Morris gyflwyniad ar ffigyrau perfformiad amcanol heb eu harchwilio 2017/18. Dyma gyfle cynnar i'r aelodau weld perfformiad y Gwasanaeth yn y flwyddyn ariannol ddiwethaf, a nodwyd y bydd yr wybodaeth yn cael ei hadrodd yn ffurfiol drwy'r asesiad perfformiad a fydd yn cael ei gyhoeddi erbyn 31 Hydref 2018.

10.2 Nodwyd y ffigyrau perfformiad drafft. Ar ôl cyflwyno graff newydd a oedd yn dangos bod nifer uwch o archwiliadau diogel ac iach yn golygu gostyngiad yn nifer y tanau damweiniol mewn cartrefi, ac fel arall, mae'n amlwg fod gwaith ataliol y Gwasanaeth yn parhau i fod yn effeithiol.

10.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd yn y cyflwyniad.**

11 ADRODDIAD BLYNYDDOL AR DDILEU DYLEDION DRWG

11.1 Cyflwynodd y Trysorydd yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r aelodau mai £196.60 oedd cyfanswm yr holl ddyledion drwg a gafodd eu dileu rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018.

11.2 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys yr adroddiad.**

12 DATGANIAD POLISI DISGRESIYNAU CYNLLUNIAU PENSIWN Y DIFFODDWYR TÂN

12.1 Cyflwynodd y PSTC MacArthur yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r aelodau fod rhaid i'r Awdurdod lunio datganiad polisi disgresiynau ar gyfer cynlluniau pensiwn y diffoddwyr tân. Roedd yr adroddiad hefyd yn ceisio cymeradwyaeth i'r penderfyniadau ym Mholisi Disgresiynau Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân a cheisio cymeradwyaeth, ar ran yr Awdurdod Tân ac Achub, y bydd penderfyniadau'n cael eu dirprwyo o ddydd i ddydd i'r Prif Swyddog Tân a'r Trysorydd.

12.2 Rhaid i'r Awdurdod, dan reoliadau Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân, wneud penderfyniadau am faterion yn ymwneud â gweinyddu'r Cynlluniau. Rhaid i'r Awdurdod adolygu, a phan fo angen, gyhoeddi polisi disgresiynau yn nodi a fydd disgresiwn yn cael ei ddefnyddio ai peidio.

12.3 **PENDERFYNWYD cymeradwyo pob penderfyniad disgresiynol sydd yn Natganiad Polisi Disgresiynau Cynlluniau Pensiwn y Diffoddwyr Tân ac i ddirprwyo penderfyniadau o ddydd i ddydd i'r Prif Swyddog Tân a'r Trysorydd.**

13 CWYNION A NEGESEUON O WERTHFAWROGIAD

13.1 Cyflwynodd y PSTC Fairhead yr adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r aelodau am y nifer a'r mathau o gwynion a negeseuon o werthfawrogiad a gafodd y Gwasanaeth rhwng 1 Ebrill 2017 a 31 Mawrth 2018, yn ogystal â nifer y cwynion a ddatryswyd yn ystod yr un cyfnod.

13.2 Yn ystod blwyddyn 2017/18, daeth cyfanswm o 31 cwyn i law, a chadarnhawyd 13 o'r rheini. Ymchwiliwyd i bob cwyn, deliwyd â phob un yn anffurfiol, ac roedd yr achwynydd ymhob achos wedi bod yn fodlon â'r canlyniad. Da oedd nodi bod 115 o negeseuon o werthfawrogiad wedi dod i law.

13.3 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

14 CYNLLUN CYDNABYDDIAETH ARIANNOL AELODAU

14.1 Cyflwynodd y Clerc adroddiad blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, sy'n nodi'r newidiadau i'r gydnabyddiaeth i'r aelodau a fydd yn dod i rym ar ddyddiad y cyfarfod blynyddol ar 18 Mehefin 2018.

14.2 **PENDERFYNWYD:**

**(i) nodi penderfyniadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn perthynas â lwfansau aelodau a chydnabyddiaeth ariannol, i'w gweithredu ar 18 Mehefin 2018;**

**(ii) cytuno mai dim ond pan fydd yr aelodau i ffwrdd o gartref am bum awr neu fwy y gellir hawlio cynhaliaeth, a hynny yn unol â rheolau Cyllid a Thollau EM;**

**(iii) rhoi awdurdod dirprwyedig i'r Clerc i ddiweddaru'r rhestr o gydnabyddiaeth ariannol i aelodau o fewn cyfansoddiad yr Awdurdod, ac i wneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i restr 2018/19 o bryd i'w gilydd yn ystod blwyddyn y cyngor, er mwyn adlewyrchu unrhyw newidiadau yn aelodaeth yr Awdurdod, neu o ganlyniad i unrhyw adroddiadau atodol gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.**

15 COFNODION CYFARFODYDD

15.1 Cafodd cofnodion y cyfarfodydd canlynol eu cyflwyno er gwybodaeth:

- Cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a gynhaliwyd ar 29 Ionawr 2018
- Cyfarfod y Panel Gweithredol a gynhaliwyd ar 12 Chwefror 2018.

15.2 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth er gwybodaeth.**